Urdd

Annwyl aelod

Diolch o galon am gytuno i ddod ar y daith i Gaerdydd. Dyma lythyr i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r daith ar **ddydd Gwener, y 6ed o Ebrill, 2018.**

Mi fydd bws yn cychwyn am **10.00yb** ar y 6ed o Ebrill o **Ysgol y Berwyn.** Bydd wedyn yn codi rhai Bro Idris ar y **Marian yn Nolgellau,** a bydd bws bach yn codi rhai **Ysgol Tywyn o'r ysgol am 10.30yb.**

Bydd angen talu'r swm llawn cyn mynychu'r daith os gwelwch yn dda, os nad ydych chi wedi gwneud eisoes.

Bydd Yr Urdd yn gyfrifol am yr aelodau drwy gydol y ddau ddiwrnod. Byddwn yn teithio gyda'r bwriad o gyrraedd Caerdydd ganol prynhawn.

Ar ôl cyrraedd, byddwn yn mynd i'r llety am y cyfnod, sef Canolfan yr Urdd, Caerdydd. Yna mynd i **Stadiwm Dinas Caerdydd** ar gyfer y gêm bêl-droed **Caerdydd v Wolverhampton Wanderers (19:45 KO).**

Ar ddiwedd y gêm, bydd y bws yn ein cludo yn ôl i Ganolfan yr Urdd am y noson. Mi fydd cyfle i brynu bwyd a diod yn y stadiwm.

Fore Sadwrn, caiff yr aelodau gyfle i grwydro canol y ddinas. Cynghorir na ddylai'r plant grwydro ar eu pen eu hunain, ac i wneud yn siŵr eu bod yn rhan o grŵp bob tro. Bydd arnynt angen arian i brynu cinio, a phres gwario ar gyfer y siopau neu yn y stadiwm.

Cawn wedyn ein cludo i **Barc y Scarlets, Llanelli** ar gyfer y gêm rhwng y **Scarlets v Glasgow (16:15 KO).**

Yn dilyn y gêm, bydd y bws yn **cychwyn am adref am 18:15.** Bydd amseroedd cyrraedd Tywyn, Dolgellau a'r Bala yn cael eu rhoi ichi pan yn dychwelyd adref**.** Gofynnwn yn garedig ichi rieni, sicrhau eich bod yno yn barod i nôl eich plant erbyn yr amseroedd hyn. Mae'n hanfodol bwysig fod gan y bobl ifanc bopeth y maent ei angen ar gyfer aros dros nos, a dillad cynnes ar gyfer gwylio'r ddwy gêm.

Gobeithio y cawn daith i'w chofio! Diolch o galon am eich cefnogaeth.

Yn gywir

Dylan Elis

**Dylan Elis**
**Urdd Gobaith Cymru**
**Swyddog Datblygu Meirionnydd**

Swyddfa'r Urdd, Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Y Bala, LL23 7ST
Ffôn: 01678 541 002
Ffôn Symudol : 07976 003337
E-bost: dylan@urdd.org

Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Siân Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481